CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
29 Mehefin 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, E Williams, A Evans, G Roberts, N Jones, J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, R Davies, S Hughes	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng G Roberts (Garnedd Ddu)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 1 a 22 o Fehefin 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - Mae'r Cyngor Sir wedi awgrymu bod trigolion Bryn Ffynnon yn cynnal cyfarfod i drafod y mater. Bydd y Clerc yn cysylltu a';r Cyngor Sir i gofyn pwy sydd am trefnu y cyfarfod.
4.2	**Gor-yrru Penmynydd** - mewn llaw
4.3	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - Dywedodd y Cadeirydd bydd y gwaith archeolegol yn dechrau diwedd y flwyddyn, symud y beddau mawr, codi llawr yr eglwys ac ymlaen. Bydd y gwaith yn cymryd o gwmpas blwyddyn a hanner. Bydd y clerc yn cynnig gwahoddiad i Mr John Roberts i'r cyfarfod nesaf i roi wybodaeth diweddaraf am yr tai elusendai.
4.4	**Lamp stryd** (Tai Cyngor Penmynydd) - mewn llaw
4.5	**Maes chwarae** - Bydd y clerc yn cysylltu a'r contractwr i gofyn paham nid yw ochrau y cae wedi cael ei torri.
4.6	**National Grid**- gwybodaeth yn unig
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C8G/DEL Cais o dan Adran 73 i dynnu amod 10 (manylion am lecyn pasio) o caniatad cynllunio rhif 41C8C (cais llawn ar gyfer newid defnydd y tir er mwyn lleoli 33 o garafannau symudol, codi bloc toiled, creu mynedfa i gerbydau ynghyd a thirlunio) yn Garnedd Ddu, Star - cynllun diwygiedig - Sylwadau: Dylai'r amodau gwreiddiol dal i sefyll.
	Gwasanaethau Democrataidd
5.2	Ymgynghoriad ar Fannau Stopio Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Sylwadau: Mae'r tir yn anaddas, gwlyb ac yn berygus. Hefyd, mae'r lleoliad yn anaddas i trigolion a gyrwyr. Bydd y lleoliad yn weladwy i trigolion Star a twristiaid a bydd y cost o gwneud y lleoliad yn uchel. Mae'r cyngor yn pryderus nid oes asesiad risg wedi cael ei wneud. Hefyd - Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn (parhaol) - bydd y clerc yn pasio sylwadau y cyngor i'r Cyngor Sir
	Llofnod **Cadeirydd** **07.09.16**

6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **07.09.16**